Ysgol Uwchradd
Prestatyn
High School

"Llwyddiant i bawb drwy positifrwydd a chyfrifoldeb"
"Achievement for all through positivity and responsibility"

Pennaeth
Pecyn Cais

Llythyr gan Lindsay Davenport, Cadeirydd Llywodraethwyr

Annwyl Ymgeisydd

Hoffwn ddiolch i chi am y diddordeb yr ydych wedi'i fynegi yn y cyfle prin a chyffrous hwn yn Ysgol Uwchradd Prestatyn.

Mae'r swydd hon yn wag gan fod y Pennaeth presennol wedi derbyn swydd Pennaeth Gweithredol yn Lloegr.

Mae'r ysgol yn dymuno penodi arweinydd ysbrydoledig, brwdfrydig, arloesol a phrofiadol i barhau â llwyddiant ein hysgol tra'n symud yr ysgol ymlaen i gam nesaf ein datblygiad a sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni canlyniadau rhagorol i'n myfyrwyr.

Fe fydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hanes blaenorol o arwain a rheoli mewn ysgol sy'n cyflawni'n uchel tra'n sicrhau bod yr ysgol yn parhau i symud ymlaen. Mae gallu bod yn flaengar, uchelgeisiol ac arloesol yn allweddol, yn ogystal â gallu gweithio mewn partneriaeth gyda'r clwstwr lleol o ysgolion cynradd a chymuned Prestatyn. Rydym ni'n chwilio am arweinydd a fydd yn ysbrydoli myfyrwyr a chydweithwyr i gyflawni eu llawn botensial ac a fydd yn ein helpu i symud i'r cyfeiriad cywir, gan adeiladu ar y sylfeini cryf sydd eisoes yn eu lle.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa o gefnogaeth lawn gan uwch dîm arweinyddiaeth arbennig, sy'n cynnwys Rheolwr Cyllid a Busnes.

Gallwn gynnig cefnogaeth Corff Llywodraethu cryf a gwybodus i chi, sydd wedi ymrwymo i alluogi'r Pennaeth newydd i arwain staff, myfyrwyr a rhieni'r ysgol tuag at y dyfodol.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y cyfle unigryw hwn, wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth, ac os oes gennych chi'r angerdd a'r uniondeb cymeriad yr ydym yn chwilio amdano, yna byddem yn falch iawn o groesawu eich cais.

Lindsay Davenport - Cadeirydd y Llywodraethau

Neges gan Jo Wynne-Eaton

Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn yn bartner cymunedol lleol allweddol, a ategir gan ymrwymiad cryf i waith ar y cyd ac yn seiliedig ar le. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda disgyblion, teuluoedd a sefydliadau cymunedol i gyd-gynllunio a darparu darpariaeth sy'n adlewyrchu angen lleol ac sy'n cryfhau deilliannau y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Cefnogir y dull arloesol hwn drwy elfen elusennol sy'n datblygu ac sydd wedi'i ymgorffori mewn partneriaethau effeithiol â chyrff statudol, gwirfoddol a'r sector preifat. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn galluogi Ysgol Uwchradd Prestatyn i ddibynnu ar arbenigedd allanol, sicrhau adnoddau ychwanegol a darparu effaith gynaliadwy, hirdymor. Drwy'r gwaith hwn, mae gan yr ysgol ofod cymunedol pwrpasol ochr yn ochr â'r ysgol ei hun, ac mae'r holl ddarpariaeth wedi'i ddylunio'n benodol i gefnogi a chryfhau ei chenhadaeth addysgol craidd drwy wella deilliannau i ddisgyblion a theuluoedd mewn lles, dysgu gydol oes a symudedd cymdeithasol.

Josephine Wynne-Eyton
Rheolwr Ysgolion â Ffocws Cymunedol | Community Focused Schools Manager

"Mae'r ysgol yn gymuned dysgu gynhwysol lle mae disgyblion a staff yn gweithio'n agos ac yn effeithiol fel tîm ac mae'r perthnasoedd hyn yn ffurfio curiad calon yr ysgol."

Estyn, 2023

Neges gan Dîm y Prif Ddisgyblion

Fel Tîm y Prif Ddisgyblion, hoffem Bennaeth sy'n gwrando ar ein lleisiau, yn deall ein heriau ac sy'n trin pob myfyriwr â pharch. Rydym yn gobeithio cael rhywun sy'n deg ac agos atoch, sy'n gosod disgwyliadau clir ac yn creu amgylchedd diogel a chefnogol ble mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ar ein Pennaeth angen annog llwyddiant academaidd a thwf personol, dathlu amrywiaeth ac ysbrydoli hyder yn ei holl fyfyrwyr.

Fel Tîm y Prif Ddisgyblion

“Rydym yn gobeithio cael rhywun sy’n deg ac agos atoch, sy’n gosod disgwyliadau clir ac yn creu amgylchedd diogel a chefnogol ble mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi.”

Fel Tîm y Prif Ddisgyblion

Swydd Wag Pennaeth

Contract: Swydd barhaol
Cyflog: Grŵp Cyflog 8, L37 – L43 (£127,540 - £146,313)
Dyddiad Dechrau: 1ain o Fedi 2026

Gall y ddogfennaeth roi cipolwg yn unig i chi o'r ysgol, felly byddwn yn eichannog i ymweld â ni cyn dyddiad cau'r cais.

I drefnu ymweld â'r ysgol dydd Llun 9fed neu ddydd Mawrth 10fed o Chwefror 2026 anfonwch e-bost at: **miriam.wheeler@denbighshire.gov.uk**

Sut i ymgeisio:

Llenwch y ffurflen gais ar wefan Cyngor Sir Ddinbych: **www.sirddinbych.gov.uk/gweithio-gyda-ni**

Amlinellwch ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon yn eich datganiad ategol.

Dyddiad Cau: Dydd Llun 23ain o Chwefror 2026

Dyddiad Cyfweliad: Dydd Iau 19 a ddydd Gwener 20 Mawrth 2026
(Bydd raid i ymgeiswyr fod yn bresennol ar y ddau ddiwrnod)

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau'r Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw ffurflen gais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na ffurflen gais a gyflwynir yn Saesneg.

This document is available in English.

Manylion am yr Unigolyn

Mae'r Manylion am yr Unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Fe'i defnyddir yn y broses o lunio'r rhestr fer a'r cyfweliadau ar gyfer y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hyn, gan mai dim ond wrth fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol y byddwch yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer.

Cymwysterau Proffesiynol

HANFODOL
- Statws Athro Cymwysedig
- CPCP

DYMUNOL
- Astudiaeth broffesiynol berthnasol neu hyfforddiant mewn arweinyddiaeth addysgol

Gwybodaeth a Phrofiad

HANFODOL
- Pennaeth, Dirprwy neu brofiad sylweddol ar lefel uwch arweinyddiaeth mewn addysg Uwchradd
- Arwain a rheoli ysgol gyfan
- Tystiolaeth o brofiad llwyddiannus o wella ysgol, codi safonau a rheoli newid Tystiolaeth o arweinyddiaeth effeithiol mewn addysgu a dysgu
- Cyfranogiad llwyddiannus mewn rheoli perfformiad staff
- Tystiolaeth o reolaeth ariannol strategol er mwyn cyflawni blaenoriaethau addysgol gan sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian
- Profiad o weithio'n effeithiol gyda Llywodraethwyr
- Profiad o brosesau sicrwydd ansawdd, hunanwerthuso a gwella effeithiol

DYMUNOL
- Profiad o arwain mewn ysgol uwchradd yn cynnwys Chweched Dosbarth

Arweinyddiaeth a Rheoli

HANFODOL
- Datblygu arweinyddiaeth ysgol gyfan cynhwysol gyda dirprwyo ac atebolrwydd priodol · Profiad o ysgogi, cefnogi a herio cydweithwyr ar bob lefel
- Codi dyheadau a gwella perfformiad gyda brwdfrydedd ar y cyd â budd-ddeiliaid i ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth
- Creu perthnasoedd, eu cynnal ac adeiladu atynt â rhieni/gofalwyr, y Corff Llywodraethu, ein clwstwr, y gymuned leol a phartneriaid
- Gwybodaeth a phrofiad sylweddol o ddiogelu ac amddiffyn plant
- Dealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau cysylltiedig
- Angerdd dros arwain a datblygu ysgol sy'n darparu ar gyfer anghenion pob dysgwr yn ein cymuned, yn cynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

DYMUNOL
- Dealltwriaeth o'r berthynas rhwng arweinyddiaeth yr ysgol, yr Awdurdod Lleol a'r arolygiaeth.

Sgiliau a galluoedd

HANFODOL
- Gallu gwneud penderfyniadau a nodi a datrys problemau yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr, barn gadarn ac uniondeb
- Arweinydd deallus yn emosiynol gyda'r gallu i ymdrin â sefyllfaoedd cymhleth, sensitif ag empathi, tegwch a thryloywder
- Cryfder a gallu i addasu i newidiadau cyflym a sefyllfaoedd pwysau uchel ac arwain drwyddynt
- Dealltwriaeth o reoli ystod o risgiau a allai effeithio ar nodau'r ysgol
- Wedi ymrwymo'n llawn i hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru

DYMUNOL
- Diddordeb brwd mewn gwybodaeth a chyfleoedd sy'n codi drwy Ddeallusrwydd Artiffisial ac addasu i fygythiadau posibl

Swydd Ddisgrifiad Pennaeth

Diben y swydd: Darparu gweledigaeth, arweiniad a chyfeiriad ar gyfer ysgol. Gyda chymorth y corff llywodraethu, byddwch yn creu a chynnal amgylchedd dysgu cynhyrchiol sy'n ymgysylltu â'r holl ddisgyblion ac yn foddhaol iddynt ac yn magu gwelliant parhaus yn safon yr addysg.

Yn atebol i'r: Corff Llywodraethu

Yn gyfrifol am: Safonau, holl staff ac adnoddau

Disgwylir i'r holl staff ddilyn a gweithio o fewn ffiniau'r fframwaith Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, a'r Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth.

Penaethiaid - prif ofynion

43.1. Rhaid i ddyletswyddau proffesiynol pennaeth gael eu cyflawni yn unol â'r canlynol ac yn ddarostyngedig i'r canlynol:

a) darpariaethau pob deddfwriaeth gymwys ac unrhyw orchmynion a rheoliadau sy'n weithredol o dan y ddeddfwriaeth gymwys ac yn benodol Deddf Addysg 1996(16) a'r Ddeddf;

b) offeryn llywodraethu ysgol y pennaeth;

c) unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a wneir gan y corff llywodraethu ynghylch materion y mae'n gyfrifol amdanynt, gan yr awdurdod mewn perthynas â materion nad yw'r corff llywodraethu yn gyfrifol amdanynt neu gan gyflogwyr y pennaeth;

d) pan fydd yr ysgol yn ysgol wirfoddol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig, unrhyw ddogfen ymddiriedaeth sy'n gymwys i'r ysgol;

e) unrhyw gynllun sy'n cael ei baratoi neu ei gynnal gan yr awdurdod o dan adran 48 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(17);

f) telerau eu penodiad.

Dirprwyo

44.1. Ni cheir dirprwyo cyfrifoldebau proffesiynol pennaeth o dan baragraff 45.9 ac eithrio yn unol â pharagraff 47.2.

44.2. Yn ddarostyngedig i baragraff 44.1, gellir dirprwyo cyfrifoldebau pennaeth i ddirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol neu aelod arall o staff mewn modd sy'n gyson â'u hamodau cyflogaeth, gan ystyried natur a graddau eu cyfrifoldebau rheoli, a chan gynnal cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith ac ymrwymiadau eraill i bob athro yn unol â pharagraff 50.4.

Cyfrifoldebau proffesiynol

45.1. Efallai y bydd yn ofynnol i bennaeth gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

Trefniadaeth, strategaeth a datblygiad ysgol gyfan

45.2. Darparu arweinyddiaeth strategol gyffredinol a, gydag eraill, arwain, datblygu a chefnogi cyfeiriad strategol, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r ysgol.

45.3. Datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol.

Addysgu

45.4. Arwain a rheoli addysgu a dysgu drwy'r ysgol gyfan, gan gynnwys sicrhau, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig, bod athro'n cael ei neilltuo yn amserlen yr ysgol i bob dosbarth neu grŵp o ddisgyblion:

a) yn y cyfnod allweddol cyntaf, ac yn yr ail, y trydydd a'r pedwerydd cyfnod allweddol, ar gyfer pynciau craidd a sylfaen ac addysg grefyddol; ac,

b) yn y cyfnod rhagarweiniol.

45.5. Addysgu.

Iechyd, diogelwch a disgyblaeth

45.6. Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion a staff.

45.7. Sicrhau trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion a staff.

Rheoli staff ac adnoddau

45.8. Arwain, rheoli a datblygu'r staff, gan gynnwys gwerthuso a rheoli perfformiad.

45.9. Datblygu trefniadau clir i gynghori'r corff perthnasol ar argymhellion ynglŷn â chyflog l athrawon, gan gynnwys p'un a ddylai athro yn yr ysgol a wnaeth gais i gael ei dalu ar y raddfa gyflog uwch gael ei dalu ar y raddfa honno.

45.10. Trefnu a lleoli adnoddau yn yr ysgol.

45.11. Hyrwyddo cydberthnasau gwaith cydgordiol yn yr ysgol.

45.12. Cynnal cydberthnasau â sefydliadau sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o'r staff.

45.13. Arwain a rheoli'r staff gan ystyried eu lles a'u disgwyliadau dilys mewn ffordd briodol, gan gynnwys y disgwyliad ynghylch cydbwysedd iach rhwng gwaith ac ymrwymiadau eraill.

Datblygiad proffesiynol

45.14. Hyrwyddo cyfranogiad staff mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.

45.15. Cymryd rhan mewn trefniadau i werthuso ac adolygu eu perfformiad eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, pherfformiad athrawon eraill a staff cymorth.

45.16. Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol pellach eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth, gan gynnwys gweithgarwch ymsefydlu.

Cyfathrebu

45.17. Ymgynghori a chyfathrebu â'r corff llywodraethu, staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.

Gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill

45.18. Cydlafurio a gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol, gan gynnwys cyrff ac asiantaethau allanol perthnasol.

Hawliau a roddwyd

46.1. Yn ogystal â darpariaethau paragraff 50, mae'r hawliau canlynol yn gymwys:

Amser penodedig i benaethiaid

46.2. Mae hawl gan bennaeth i gael cyfnod rhesymol o amser yn ystod sesiynau ysgol, gan ystyried ei gyfrifoldebau addysgu, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli ac arwain.

Egwyl ddyddiol

46.3. Mae gan bennaeth yr hawl i egwyl resymol yn ystod pob diwrnod ysgol, ac mae'n rhaid iddo drefnu bod rhywun addas yn gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau fel pennaeth yn ystod yr egwyl honno.

Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Datganiad Diogelu

Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl weithwyr Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Ysgol a'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.

1. Parc Prestatyn
2. Railway Station
3. Scala Cinema
4. Church
5. Upper High Street
6. Pendre Gardens
7. Roman Helmet
8. Prestatyn High School

Darganfod Prestatyn

Mae sawl elfen yn perthyn i Brestatyn. Nid cyrchfan arfordirol mohono'n unig – ond mae hefyd yn ganolfan siopa brysur gyda pharc adwerthu newydd sbon a Stryd Fawr o siopau annibynnol ac unigryw.
Mae'n borth i'r awyr agored, ac yn gorwedd ym mhen gogleddol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sy'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'n dref treftadaeth gyda gweddillion baddondy Rhufeinig sy'n agos iawn i fod yn 2,000 o flynyddoedd oed.
Ac yn fwy nag erioed mae'n gyrchfan i gerddwyr. Mae Prestatyn ar ddechrau Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, ac mae'r llwybr yn olrhain gwaith cywrain y Brenin Offa o Mersia o'r wythfed ganrif sy'n ymestyn yr holl ffordd o dop Cymru i waelod y wlad.

https://mylocalschool.gov.wales/School/6634014

https://www.atprestatyn.co.uk

Prestatyn Tourism

Ysgol Uwchradd **Prestatyn** High School

"Llwyddiant i bawb drwy positifrwydd a chyfrifoldeb" "Achievement for all through positivity and responsibility"